# Y CYNGOR BLYNYDDOL, 07/05/09

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Tudor Owen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Bob Anderson, Stephen Churchman, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Huw Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, Aeron M Jones, Charles Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, R L Jones, Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd W Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Lewis (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Perfformiad a Chraffu), Meinir Owen (Rheolwr Effeithlonrwydd Corfforaethol), Gareth James (Rheolwr Craffu), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, O P Huws, Brian Jones, Linda Wyn Jones a Trevor Roberts

**1 GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Aeron M Jones

Dilynwyd y weddi gydag anerchiad gan y Cynghorydd Evie Morgan Jones, Cadeirydd 2008/9.

**2 CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn gadeirydd am 2009/2010.

Llofnododd y Cynghorydd Anne Lloyd Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2009/2010.

**3 IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd W Tudor Owen yn is-gadeirydd am 2009/2010

Llofnododd y Cynghorydd W Tudor Owen ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2009/2010

**4 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2009 a 2 Ebrill 2009 fel rhai cywir.

**5 DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(a) Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem oedd gerbron y Cyngor yn ymwneud a diwygio'r Cynllun Lwfansau i Aelodau.

Dan y Cod Ymddygiad, eglurwyd bod gan bob aelod fuddiant personol yn yr eitem hon, ond nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a bod hawl gan aelodau i gymryd rhan yn y drafodaeth ac i bleidleisio ar y mater.

(c) Datganodd yr aelodau oedd yn bresennol fuddiant personol yn yr eitem ynglŷn â'r Cyfansoddiad a diwygio'r Cynllun Lwfansau i aelodau, oherwydd eu bod fel aelodau yn derbyn lwfans ac felly a buddiant unionyrchol ac ariannol yn yr eitem.

Nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio ar y mater.

**6 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(i) Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar gyn-gynghorydd Handel Morgan, Llangefni a fu'n aelod o'r cyn Cyngor Sir Gwynedd hyd at 1996 ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Addysg o 1991-96.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Evie Morgan Jones at farwolaeth ddiweddar John Tudor, Dolgellau, a chydymdeimlodd â'r teulu, a Chadeirydd y Cyngor ar farwolaeth ei hewythr.

Talodd deyrnged i John Tudor. Cyfeiriodd at ei addysg ym Mro Dysynni a Choleg Milfeddygaeth Lerpwl; ei yrfa fel milfeddyg ym Meirionnydd; a'i gyfraniad mawr i lywodraeth leol, fel aelod o Gyngor Sir Gwynedd rhwng 1974 a 99, Cadeirydd y Cyngor Sir yn 1979-80, a Chadeirydd Parc Cenedlaethol Eryri am 25 mlynedd. Cyfeiriwyd hefyd at ei waith gyda Sioe Frenhinol Cymru.

Nodwyd i John Tudor fod yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethu Coleg Meirion/Dwyfor am flynyddoedd lawer, a chyfeiriwyd at ei falchder yn llwyddiant y myfyrwyr.

Cydymdeimlodd â'r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(ii) Llongyfarchwyd y Cynghorydd John Gwilym Jones ar ddod yn daid am y tro cyntaf, yn ogystal â'r Cynghorydd Dyfrig Jones ar ei benodiad i Fwrdd S4C.

Hefyd llongyfarchwyd Clwb Pêl Droed Dinas Bangor ar ennill Cwpan Cymru a Chlwb Pêl Droed y Bala ar ddyrchafiad i uwch gynghrair Cymru

**11 STRATEGAETH ARBEDION 2010-2013**

(a) Cyflwynwyd, er cymeradwyaeth y Cyngor strategaeth arbedion diwygiedig ar gyfer 2010-2013.

(b) Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y sefyllfa ddiweddaraf.

Eglurwyd y bydd gwariant cyhoeddus ym Mhrydain llawer yn is yn y dyfodol. Roedd y sefyllfa wedi gwaethygu yn sgil cyllideb ddiweddar y Canghellor, ac roedd yn debygol na fydd yr economi'n gwella tan o leiaf 2017.

Nodwyd bod perthynas cyffredinol rhwng gwariant cyhoeddus ym Mhrydain a grant llywodraeth leol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y berthynas yn gwaethygu ac roedd yn darogan cynnydd grant isel iawn mewn blynyddoedd i ddod ac y bydd yn parhau'n isel hyd o leiaf 2017.

Cyfeiriwyd at y rhagolygon hir dymor. Oherwydd bod posibilrwydd y bydd y Cyngor yn derbyn grant sylweddol is yn 2010/11 a 2011/12, eglurwyd y bydd angen darganfod mwy o arbedion. Roedd y Cyngor ar hyn o bryd, yn cynllunio i ddarganfod arbedion o £15m dros y tair blynedd nesaf, ond oherwydd y posibilrwydd y bydd y cynnydd grant yn dra isel, roedd yn bosibl y bydd angen darganfod arbedion o £16m dros ddwy flynedd, a bod angen paratoi ar ei gyfer.

Tra'n nodi nad oedd sicrwydd ynglŷn â'r sefyllfa, roedd yn darogan cyfnod tywyll iawn am flynyddoedd i ddod.

(c) Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Pennaeth Strategol a Gwella ar gyfundrefn a phroses y strategaeth.

Eglurwyd bod gan y Cyngor gyfundrefn arbedion yn ei le ers 2005/06, bod £14.4m o arbedion ariannol wedi'u gwireddu ers hynny, a bod y strategaeth wedi'i haddasu'n gyson i ymateb i'r cyd-destun. Roedd cynlluniau unigol cymharol fychan wedi'u cyflawni yn y gorffennol, ac oherwydd ei bod yn fwyfwy anodd dod o hyd i arbedion, roedd angen cytuno strategaeth newydd ar gyfer y sefyllfa heriol oedd yn wynebu'r Cyngor.

Yn ychwanegol i darged o 0.5% o effeithlonrwydd ariannol blynyddol i bob Pennaeth ac ar gyfer ysgolion, eglurwyd y bwriedir llunio dewislen o arbedion tua dwywaith mwy na'r targed yn y strategaeth, er mwyn i aelodau ddethol a blaenoriaethu'r cynlluniau i'w gweithredu.

Ymhelaethodd y Pennaeth ar amrywiol elfennau'r strategaeth, ac ychwanegodd bod cytundeb pellach y bydd y Bwrdd yn ystyried a chymeradwyo'r dewislen drafft, cyn eu cyflwyno i'w craffu. Hefyd eglurodd y bwriedir ceisio barn trigolion a staff ar y dewisiadau cyn eu cyflwyno er cymeradwyaeth y Prif Bwyllgor Craffu, y Bwrdd a'r Cyngor llawn.

Pwysleisiodd bod arweinyddiaeth aelodau ac uwch swyddogion yn gwbl allweddol i ymdopi a'r her, a bod angen consensws ar y strategaeth, er mwyn cyflawni'r cynlluniau a gweithredu'r newidiadau.

(ch) Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Prif Weithredwr ar sut bydd y Cyngor yn cyflawni'r newidiadau heriol.

Eglurodd bod sylfaen adnoddau'r Cyngor yn newid yn sylweddol iawn dros y blynyddoedd nesaf, bod rhaid newid i ymateb i'r her, a bod angen arwain a rheoli'r newid.

Manylodd ar gyfrifoldebau arweinyddiaeth. Cyfeiriodd at yr angen i wynebu realiti ynglŷn â'r sefyllfa anodd oedd yn wynebu'r Cyngor, a'r angen i ddarganfod arbedion ar draws y gwasanaethau ac nad oedd newidiadau graddol a newidiadau bach niferus yn ddigon.

Cyfeiriodd hefyd at yr angen i barhau i newid diwylliant a grymuso staff i ddarganfod a chyflawni arbedion; gweithredu'n strategol a chynllunio ar gyfer bygythiadau a chyfleoedd y dyfodol; creu diwylliant un Cyngor er mwyn wynebu'r heriau'n llwyddiannus; cyflymu'r broses o newid, a chreu amgylchedd cadarnhaol a phositif er mwyn hyrwyddo creadigrwydd a mentergarwch.

Pwysleisiodd yr angen i gydweithio ar draws y pleidiau gwleidyddol a gyda swyddogion er mwyn cyflawni'r newidiadau er mwyn cyfyngu ar y difrod ac uchafu'r cyfloed.
`

(d) Trafodwyd y Strategaeth a materion cysylltiol a nodwyd y sylwadau canlynol:-

Roedd aelodau'n awyddus i ymateb i'r her a chymryd rhan gyflawn yn y broses.

Nododd aelod bod dewisiadau a phenderfyniadau anodd yn eu hwynebu, a'i bod yn bwysig bod rhyddid i aelodau feddwl yn eang am gynlluniau posibl, er mwyn sicrhau dewis helaeth yn y fwydlen.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod cyfle i aelodau gael mewnbwn helaeth i'r fwydlen, ac i ddewis o'r fwydlen. Nodwyd bod y trefniadau wedi'u diwygio yn unol â dymuniadau aelodau i weithredu o fewn cyfundrefnau'r Cyngor ac i sicrhau cyfleoedd craffu helaeth.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r strategaeth arbedion diwygiedig**

**12 DIWYGIO'R CYFANSODDIAD**

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar ddiwygiadau i gyfansoddiad y Cyngor yn sgil yr ail strwythuro corfforaethol a datblygiadau eraill.

(b) Adroddodd y Cynghorydd Simon Glyn, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol bod y pwyllgor craffu wedi rhoddi sylw trwyadl a chynhwysfawr i amrywiol agweddau o'r Cyfansoddiad. Eglurodd bod cytundeb ynglŷn â phob diwygiad, heblaw'r drefn cyfeirio i fyny. Er bod aelodau'n gytûn bod angen ymarfer gwell disgyblaeth wrth gyfeirio materion i fyny, nid oedd consensws ynglŷn â'r dull gorau o wneud hynny.

Trafodwyd y mater hefyd yn y Grŵp Busnes a chyflwynwyd opsiynau i'r Cyngor

(b) Cynigiwyd ac eiliwyd cynyddu'r nifer oedd ei angen ar gyfer cyfeirio i fyny i 25 (o'r 15 presennol), a gofyn i'r sawl sy'n cyfeirio i fyny sicrhau y bydd y penderfyniad newydd oddi fewn i bolisïau a chyllideb y Cyngor. Ni dderbynnir unrhyw rybudd a arweiniai at benderfyniad sydd oddi allan i bolisi neu gyllideb. (Opsiwn 1)

Nodwyd bod y pwyllgor craffu'n argymell y trefniadau o fwyafrif bychan.

Eglurodd y Swyddog Monitro, nad oedd y diwygiadau arfaethedig i Reol Gweithdrefn 21 yn gyflawn yn y dogfennau Saesneg. Ymddiheurodd am y camgymeriad, a nododd bod copïau cywir Saesneg wedi'u dosbarthu i'r aelodau perthnasol. Nododd mai'r Gymraeg oedd y fersiwn wreiddiol gywir.

(ch) Mynegodd sawl aelod wrthwynebiad i gynyddu'r nifer i 25, ac awgrymwyd y byddai'n fwy rhesymol i gynyddu'r nifer i 21 gan y byddai'n rhoi cyfle teg i grwpiau llai gyfeirio mater i'r Cyngor llawn.

(d) Roedd eraill o'r farn y dylid glynu wrth y drefn bresennol o 15. Nodwyd y byddai ei godi i 25 neu hyd yn oed 21, yn ei gwneud yn anodd iawn i aelodau cyffredin, aelodau o grwpiau llai, ac aelodau sy'n cynrychioli ardaloedd gwledig gasglu digon o enwau. Gwnaed y sylw bod codi'r rhif yn groes i ddemocratiaeth, ac anogwyd aelodau i lynu wrth y status quo drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig.

Hefyd cyfeiriwyd at y ffaith bod y Cyngor blaenorol wedi gostwng y nifer o 18 i 15.

Nododd aelod ei fod yn cytuno bod rhaid sicrhau cyfundrefn sy'n rhoi cyfle i aelod cyffredin o'r Cyngor, gyflwyno mater sydd o bwys iddo i sylw'i gyd-aelodau. Fodd bynnag nodwyd bod llawer o faterion diangen yn cael eu galw i fyny'n i'r Cyngor llawn, yn hytrach na'u galw i mewn, i'r Prif Bwyllgor Craffu a phwyllgorau eraill.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gynyddu'r nifer sydd ei angen ar gyfer cyfeirio i fyny i 21 (o'r 15 presennol) ac yn gofyn i'r sawl sy'n cyfeirio i fyny sicrhau y bydd y penderfyniad newydd oddi fewn i bolisïau a chyllideb y Cyngor, ac na dderbynnir unrhyw rybudd os byddai, o'i fabwysiadu, yn arwain at benderfyniad sydd oddi allan i bolisi neu gyllideb.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant uchod:-

**O blaid: (42)** Y Cynghorwyr Bob Anderson, Stephen Churchman, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Alan Jones Evans, Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith, Siân Gwenllïan, Huw Hughes, Sylvia Humphreys, Anne Lloyd Jones, Charles Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Evie Morgan Jones, J R Jones, John Wynn Jones, R L Jones, Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, Linda Morgan, Dewi Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Ann Williams, J.W.Williams a R H Wyn Williams

**Yn erbyn: (24)** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Trevor Edwards, T G Ellis, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Aeron M Jones, Eric Merfyn Jones, John Gwilym Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, J Wynn Meredith, Llinos Merks, W Roy Owen, Peter Read, Dafydd W Roberts, Gwilym Euros Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Atal pleidlais (0):**

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi'i gario a bod y cynnig fel ag yr oedd wedi'i wella, yn cymryd lle'r cynnig gwreiddiol

(dd) Mynegodd sawl aelod wrthwynebiad cryf i roddi hawl i swyddogion gyfyngu ac atal materion sydd wedi eu cyfeirio i fyny gan y nifer priodol o aelodau, os oedd yn groes i bolisi neu gyllideb. Nodwyd y byddai'r trefniant yn groes i ddemocratiaeth.

Cynigiwyd, eiliwyd a chariwyd gwelliant i beidio rhoddi hawl i swyddogion atal y nifer priodol o aelodau rhag cyfeirio mater i fyny i'r Cyngor oes oedd yn groes i bolisi neu gyllid.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant, fel ag yr oedd wedi'i wella ymhellach yn cymryd lle'r cynnig gwreiddiol.

(e) Oherwydd bod nifer yr aelodau ar gyfer cyfeirio i fyny wedi codi i 21, gofynnwyd am ymestyn y cyfnod galw i fyny o 5 i 7 diwrnod gwaith. Nodwyd y byddai'n anos casglu 21 enw mewn sir wasgaredig o fewn 5 diwrnod.

Cynigiwyd, eiliwyd a chariwyd gwelliant i ymestyn y cyfnod galw i fyny i 7 diwrnod er mwyn rhoddi cyfle teg i gysylltu gyda nifer uwch o aelodau

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant fel ag yr oedd wedi'i wella ymhellach yn cymryd lle'r cynnig gwreiddiol.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol fel ag yr oedd wedi'i wella.

(f) Mynegwyd amheuaeth ynglŷn â'r angen i drosglwyddo dyletswyddau galw i mewn a throsolwg y Prif Bwyllgor Craffu i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol. Mewn ymateb, eglurwyd bod y newid yn un synhwyrol gan mai gwaith presennol y pwyllgor oedd cymryd trosolwg o faterion corfforaethol ac felly byddai cymryd trosolwg o waith y pwyllgorau craffu eraill a herio penderfyniadau'r Bwrdd yn eistedd yn gyfforddus o fewn ei gylch gorchwyl.

Diolchwyd i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol am eu gwaith trylwyr ar ddiwygio'r Cyfansoddiad.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Mewn perthynas â Rheol Gweithdrefn 21, a'r drefn galw i mewn, cynyddu nifer sydd ei angen ar gyfer cyfeirio i fyny i'r Cyngor i 21, a bod y rhybuddion ysgrifenedig i law dim hwyrach na 7 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod lle gwnaed y penderfyniad (neu yn achos y Bwrdd ddim hwyrach na 7 diwrnod gwaith wedi i'r rhybuddion gael eu hanfon allan.**

**(ii) Mabwysiadu y diwygiadau i'r Cyfansoddiad yn unol â'r manylion a nodir yn y tabl isod**

| Teitl y Ddogfen | Y rhan sydd wedi ei ddiwygio | Goblygiadau |
|---|---|---|
| **Erthygl 6 – Pwyllgorau Craffu** | **Cylch gorchwyl y Prif Bwyllgor Craffu** | **Rhoi dyletswyddau galw i mewn a throsolwg y Prif Bwyllgor Craffu i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol yn hytrach nag i'r Pwyllgor Craffu Datblygu.** |
| **Erthygl 9 – Y Pwyllgor Safonau** | **9.02 – a,b,c,dd ag f.** | **Ychwanegu aelod lleyg arall i'r Pwyllgor i wneud cyfanswm yr aelodaeth yn 9.**<br><br>**Diwygiadau eraill i gyd-fynd hefo rheoliadau diwygiedig.** |
| **Erthyl 12 –** | **12.1(b)** | **Newidiadau i'r disgrifiad o'r Tîm** |

| | | |
|---|---|---|
| **Swyddogion** | | **Arweinyddiaeth Corfforaethol i gyd-fynd hefo strwythur newydd y Cyngor.** |
| **Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau** | **2.4.9** | **Rhoi pleidlais i aelodau cyfetholedig Conwy ac Ynys Môn ar y Pwyllgor Pensiynau.**<br><br>**Diddymu'r Cydbwyllgor Gwastraff Môn-Arfon** |
| **Cynllun Dirprwyo i Swyddogion** | **3.13<br>4.3.4<br>4.9<br>4.11<br>4.13<br>4.14<br>4.15<br>4.16<br>4.17<br>4.18<br>4.20<br>4.21** | **Newidiadau i gyd-fynd hefo'r strwythur newydd. Teitl sawl swydd yn newid; meysydd cyfrifoldeb yn symud oddi wrth un pennaeth i'r llall mewn sawl achos a disgrifiadau o feysydd gwaith eraill wedi eu twtio. Diweddaru rhestr deddfwriaeth sy'n cael ei orfodi gan swyddogion Gwarchod y Cyhoedd. diweddaru.** |
| **Rheolau Gweithdrefn** | **5(8)<br>12(6)<br>13(7)<br>16(6)<br>18<br>21<br>27** | **Ail sefydlu'r rheol o beidio ail drafod mater yn y Cyngor o fewn 6 mis;<br>diwygio'r drefn cyfeirio i fyny (yn unol ag (i) uchod);<br>cyflwyno'r hawl i roi ateb ysgrifenedig i gwestiwn;<br>a mân ddiwygiadau eraill.** |
| **Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu** | **1<br>2<br>10<br>17** | **Diwygiadau i'r eirfa i gyd-fynd hefo newid y Prif Bwyllgor Craffu; sicrhau ymgynghoriad hefo'r Cadeirydd os daw cais gan aelod i roi eitem ar y rhaglen.** |
| **Rheolau Ariannol** | **1.4, 3, 4.1, 7.8, 7.21, 7.22, 7.37, 7.38, 20.12, 20.13, 23.3 a mân ddiwygiadau eraill** | **I gyd-fynd hefo'r strwythur newydd; diweddaru trothwyon trosglwyddiadau refeniw a chyfalaf, gostwng trothwyon er mwyn cynyddu derbyniadau cyfalaf i'r gronfa gorfforaethol, cysoni terminoleg a symleiddio er mwyn eglurder.** |
| **Rheolau Gweithdrefn Contractau** | **Y rheolau cyfan** | **Ail-sgwennu rheoau i gyd-fynd â threfniadau caffael modern a chyda'r rheoliadau perthnasol.** |
| **Cynllun Lwfansau Aelodau** | **Y cynllun cyfan** | **Diwygiadau yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn i gyflwyno lwfans aelodau cyfetholedig a lwfans gofal. Cynnydd yn y lwfans sylfaenol o £600 i ddod yn nes at argymhellion y panel annibynnol. Cynyddu lwfansau Cadeirydd ac Is-** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **gadeirydd y Cyngor i adlewyrchu'r lwfansau a delir i gadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau. Cyflwyno lwfansau teithio ar gyfer beiciau ac un swm dyddiol ar gyfer cynhaliaeth. Chwyddiant i'r holl lwfansau yn unol ag argymhelliad y panel annibynnol.** |

**(iii) Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol wneud y trefniadau priodol i alw panel cyfweld ar gyfer aelod lleyg ychwanegol o'r Pwyllgor Safonau a chyflwyno argymhelliad ar y penodiad yn ôl i'r Cyngor llawn.**

## 13 STRATEGAETH TROSOLWG A CHRAFFU 2009-2012

(a) Cyflwynwyd, er cymeradwyaeth y Cyngor, Strategaeth Trosolwg a Chraffu 2009-2012.

(b) Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Cynghorydd Simon Glyn, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol ar gyd-destun a chynnwys y Strategaeth.

Eglurwyd bod angen gwella trefniadau craffu'r Cyngor, a bod y strategaeth arfaethedig yn datgan weledigaeth glir a dealladwy i waith trosolwg a chraffu'r Cyngor am y tair blynedd nesaf. Roedd yn gosod meini prawf pendant i'w dilyn wrth ddewis materion i'w craffu ac yn rhoddi mwy o gyfrifoldeb a grym yn nwylo aelodau etholedig.

Cyfeiriodd at y pedwar amcan oedd wedi ei nodi yng Nghynllun Tair Blynedd y Cyngor gan nodi bod angen i'r aelodau, trwy'r Pwyllgorau Craffu, Bwrdd y Cyngor a'r Cyngor llawn gydweithio i wireddu'r amcanion er mwyn Gwella Gwynedd.

Manylodd ar brif amcanion y Strategaeth, sef adnabod y materion pwysicaf i'w craffu, rhoddi pwyslais ar wneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd a gwella mewnbwn gan y cyhoedd, partneriaid a chymunedau trwy gyfathrebu effeithiol.

Cyfeiriodd at y trefniadau newydd mewn perthynas â rhaglennu'r gwaith a pharatoi i graffu a manylodd ar drafodaethau'r Pwyllgor Craffu Adnodau a Chorfforaethol mewn perthynas â'r trefniadau newydd.

(c) Mynegodd aelod wrthwynebiad cryf i ddefnyddio arbenigwyr ac ymgynghorwyr allanol ar gyfer cefnogi craffu oherwydd y costau oedd ynghlwm â hyn. Nododd y dylid defnyddio swyddogion proffesiynol y Cyngor ar gyfer y gwaith, ac awgrymodd y dylid torri i lawr yn gyffredinol ar y defnydd o ymgynghorwyr allanol, er mwyn gwneud arbedion. Pwysleisiodd y Pennaeth Strategol a Gwella mai mater i'r aelodau fydd penderfynu ar y math o gymorth byddant ei angen a chost y cymorth hwnnw.

(ch) Nododd aelod o'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol ei fod yn croesawu'r strategaeth. Fodd bynnag, o safbwynt raglennu gwaith y pwyllgor, eglurodd nad oedd mewn sefyllfa i neilltuo hanner diwrnod ar gyfer trafod eitemau i'w gosod ar raglen y cyfarfod nesaf, ac anogodd swyddogion i wneud defnydd llawn o'r offer fideo gynadleddau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2009-2012,a rhoi hawl i'r Pennaeth Strategol a Gwella gwneud man newidiadau golygyddol i'r ddogfen.**

**14 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a materion perthynol.

Adroddwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau'n adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.

Eglurwyd bod Cydbwyllgor Gwastraff Môn Arfon wedi dod i ben sy'n golygu lleihad yn nifer y seddau ar bwyllgorau'r Cyngor, a bod angen addasu dyraniad y seddau.

Hefyd, gan fod y Cyngor wedi newid cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol yn Brif Bwyllgor Craffu, eglurwyd bod y Grŵp Annibynnol yn colli sedd i'r Grŵp Llafur ar y pwyllgor hwn, a'r Grŵp Llafur yn colli sedd i'r Grŵp Annibynnol ar Bwyllgor Craffu Datblygu. Nodwyd bod Grŵp Busnes y Cyngor yn gefnogol i'r newidiadau hyn.

Yn ychwanegol eglurwyd na all aelod o'r un grŵp gwleidyddol â chadeirydd y Bwrdd fod yn gadeirydd nac yn is-gadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu. Yn sgil penderfyniad y Cyngor i roddi gorchwyl Prif Bwyllgor Craffu i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol, roedd angen cyfnewid is-gadeiryddiaethau y ddau bwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Nodi a derbyn cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig canlynol y Cyngor :-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **35** |
| **Annibynnol** | **18** |
| **Llais Gwynedd** | **13** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **5** |
| **Llafur** | **4** |

**(ii) mabwysiadu'r dyraniad a amlinellir yn unol â'r tabl isod**

**BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Adnoddau a Chorfforaethol (Prif Bwyllgor Craffu) | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu** | **7** | **4** | **3** | **1** | |
| **Amgylchedd** | **7** | **3** | **3** | **1** | **1** |
| **Plant a Phobl Ifanc** | **7** | **3** | **3** | **1** | **1** |
| **Gofal** | **7** | **4** | **2** | **1** | **1** |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwyned d | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| **Archwilio** | **7** | **4** | **3** | | **1** |
| **Cwynion** | **4** | **2** | **1** | | |
| **Pensiynau** | **2** | **2** | **1** | **1** | **1** |
| **Cynllunio Canolog** | **5** | **3** | **1** | **1** | **1** |
| **Trwyddedu Canolog** | **5** | **3** | **2** | **1** | |
| **Apelau Cyflogaeth** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1** |
| **Adnoddau Dynol** | **6** | **2** | **2** | **1** | |
| **CYSAG** | **3** | **2** | **1** | **1** | |
| **Cydbwyllgor Lleol** | **5** | **2** | **2** | **1** | **1** |
| **Cydbwyllgor AAA** | **3** | **2** | **1** | | **1** |
| **Elusennau** | **4** | **2** | **2** | **1** | |
| **Iaith** | **3** | **2** | **2** | | |
| **Trethi Annomestig** | **3** | **1** | **1** | | |
| **Adolygu Tenantiaeth Gyflwyniadol** | **2** | **1** | | | |

**(ii)Cyfnewid is-gadair y Pwyllgor Craffu Datblygu a Phwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol a mabwysiadu'r dyraniad cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau yn unol â'r tabl isod.**

| | Pwyllgor | Cadeirydd | Is-gadeirydd |
|---|---|---|---|
| **1** | **Bwrdd y Cyngor Council Board** | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| **2** | **Adnoddau a Chorfforaethol (Prif Bwyllgor Craffu)** | **Llais Gwynedd** | **Democratiaid Rhyddfrydol** |
| **3** | **Plant a Phobl Ifanc** | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4** | **Amgylchedd** | **Plaid Cymru** | **Democratiaid Rhyddfrydol** |
| **5** | **Gofal** | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| **6** | **Datblygu** | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| **7** | **Archwilio** | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| **8** | **Cwynion** | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| **9** | **Cynllunio Canolog** | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| **10** | **Trwyddedu Canolog** | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| **11** | **Pensiynau** | **Annibynnol** | **Llafur** |
| **12** | **Adnoddau Dynol** | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| **13** | **Apelau Cyflogaeth** | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| **14** | **Ardal Arfon** | **Llafur** | **Plaid Cymru** |
| **15** | **Ardal Dwyfor** | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| **16** | **Ardal Meirionnydd** | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |

**15 STRATEGAETH DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU**

(a) Cyflwynwyd Strategaeth Datblygu a Hyfforddi Aelodau, er cymeradwyaeth y Cyngor llawn.

(b) Eglurwyd gan y Pennaeth mai bwriad y strategaeth oedd cynorthwyo aelodau i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o fewn fframwaith strwythuredig. Cyfeiriwyd at y blynyddoedd anodd sydd i ddod, a nodwyd y bydd y strategaeth yn arfogi aelodau i wynebu'r her yn llwyddiannus.

Hefyd nodwyd y bydd y Strategaeth yn fodd o gyfrannu i weithio tuag at safan Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddo. Eglurwyd bod mabwysiadu fframwaith ar gyfer datblygu a hyfforddi aelodau, yn un o ofynion y Siarter. Roedd tîm adolygu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ymweld â'r Cyngor ddiwedd Mai, er mwyn asesu cynnydd y Cyngor i weithio tuag at y Siarter, a bydd y Strategaeth yn rhan bwysig o gyflawni'r safon.

Eglurwyd yr ymgynghorwyd yn eang gydag aelodau i ddatblygu'r Strategaeth, a nodwyd y bydd angen mewnbwn pellach aelodau i ddatblygu'r elfennau, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r anghenion.

Bwriedir gweithredu'r strategaeth yn llawn ar gyfer arweinyddion yn ystod 2009/10 ac ar gyfer gweddill yr aelodau yn 2010/11.

Nodwyd y bydd cost yr hyfforddiant yn dod o'r gyllideb sydd ar gael yn barod. Hefyd nodwyd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn bod y Strategaeth yn flaengar, a bod cefnogaeth ar gael oddi wrth CLLLC o ran cyfraniad ariannol ac amser swyddogion i gynorthwyo gyda datblygu'r Strategaeth.

(c) Cafwyd cyflwyniad byr ar gynnwys y strategaeth gan y Rheolwr Hyfforddi.

Adroddwyd bod y strategaeth yn uchelgeisiol ac yn anelu i ddarparu gwasanaeth a chefnogaeth broffesiynol ac effeithiol o'r safon uchaf.

Eglurodd y bydd aelodau etholedig yn cyfrannu'n sylweddol at y camau sydd yn y strategaeth. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod y cynllun yn briodol ac yn cwrdd ag anghenion aelodau unigol a bod nifer o gamau manwl yn y strategaeth er mwyn sicrhau hyn.

Nodwyd bod y strategaeth ei hun yn fanwl iawn. Ymhelaethwyd ar amrywiol elfennau'r strategaeth a'r camau oedd i'w datblygu gyda CLLLC, sef diffinio rôl a chyfrifoldeb aelodau, cymwyseddau ac ymddygiadau. Manylwyd ar y matrics hyfforddi, sef y rhestr o hyfforddiant fydd ar gael ar gyfer aelodau a'r broses o lunio Rhaglen Ddatblygu Unigol.

(ch) Trafodwyd y strategaeth a materion cysylltiol yn helaeth, a nodwyd sylwadau canlynol yr aelodau:-

- bod hyfforddiant yn bwysig, a dylai aelodau fynychu hyfforddiant pan fo hynny'n bosibl, ond ni ddylai fod yn fandadol;
- dylid sicrhau bod darpar aelodau yn sylweddoli bod disgwyl iddynt fynychu hyfforddiant er mwyn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol;
- angen sicrhau bod y trefniadau'n hwylus o ran amseriad a lleoliad. Gofynnwyd am osgoi gwrthdaro gyda phwyllgorau'r Cyngor; ystyried cynnal rhai sesiynau gyda'r nos a threfnu hyfforddiant ar fwy nag un pwnc ar yr un pryd
- angen i'r hyfforddiant fod yn briodol a phwrpasol. Gofynnwyd i'r hyfforddiant gael ei ddarparu mewn amryfal ddulliau; dosbarthu'r papurau ymlaen llaw ac anfon gwybodaeth berthnasol at aelodau oedd wedi methu mynychu'r hyfforddiant;
- dylid cynnal yr hyfforddiant yn adeiladau'r Cyngor ac nid mewn sefydliadau preifat er mwyn osgoi costau diangen;

Diolchodd Arweinydd Portffolio Adnoddau Dynol i'r Rheolwr Hyfforddi a'r tîm hyfforddi am eu gwaith i ddod a'r strategaeth uchelgeisiol gerbron, ac anogodd holl aelodau'r Cyngor i fanteisio ar yr hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Datblygu a Hyfforddi Aelodau, i'w gweithredu yn unol â'r amserlen.**

## 16 CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21

Adroddwyd bod y nifer priodol o aelodau wedi rhoddi rhybudd ysgrifenedig eu bod yn dymuno cyfeirio'r materion isod yn uwch.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO CANOLOG – 26 MAWRTH 2009**

**Eitem 6 – Ceisiadau Cynllunio**

**Cais C08A/0617/15/AM – llain o dir yn Groeslon, Glynrhonwy, Llanberis. Caernarfon**

(i) Adrodd bod y Pwyllgor Cynllunio Canolog yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth 2009 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais ar y sail y byddai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol a'r cyngor a gynhwyswyd yn Natganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006, Nodyn Cyngor Technegol 6; polisi CH7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (drafft fel y'i diwygiwyd) Awst 2008; polisi A1 Cynllun Fframwaith Gwynedd a pholisi 4Ff Cynllun Lleol Arfon Wledig.**

(ii) Gofynnwyd gan yr aelod lleol am gael gohirio'r eitem er mwyn rhoddi cyfle i gyflwyno gwybodaeth bellach i aelodau.

**PENDERFYNWYD gohirio trafod yr eitem er mwyn rhoddi cyfle i gyflwyno gwybodaeth bellach i aelodau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 p.m. a daeth i ben am 5.05 p.m.